

# POBL YN MARW WEDI CUDDIO MEWN TRYCIAU

**Os ydych yn gweld unrhywbeth amheus, adroddwch amdano cyn ei bod yn rhy hwyr.**

I gadw  100% yn ddienw cysylltwch ag elusen Crimestoppers.
Mewn argyfwng ffoniwch 999.

NCA
National Crime Agency

Border Force

CrimeStoppers.
0800 555 111
100% anonymous. Always.

**Gwyddom fod smyglwyr pobl yn aml yn cysylltu â gyrwyr cludiant wrth iddynt geisio gwerthu mudwyr i gaethwasiaeth fodern.**

**Mae smyglo pobl yn drosedd ddifrifol. Yn 2019, bu farw 39 o bobl tra'n cuddio mewn lori wedi'i oeri a derbyniodd y rhai oedd yn gysylltiedig gyfanswm o 92 o flynyddoedd a 10 mis o garchar. Gallwch chi helpu i gadw pobl yn ddiogel.**

**Gallwch ddweud wrth Crimestoppers os ydych chi wedi gweld neu'n amau'r canlynol:**

- Rhywun yn mynd at yrwyr eraill i gynnig tâl iddynt am gludo eitemau
- Trwydded yrru neu fodd adnabod ffug i yrrwr
- Toriadau diogelwch rheolaidd o fewn ardal y porthladd y byddwch yn ei ddefnyddio
- Dulliau talu neu drafodion anarferol gan neu rhwng gyrwyr a'u cwsmeriaid (a yw'r wagen ac/ neu drelar yn ddiogel ac yn cael ei defnyddio'n gyfreithlon?)
- Gweithgaredd amheus neu anarferol gan bobl neu gerbydau o amgylch y wagen/trelar
- Gweithgaredd neu olwg anghywir neu anarferol ar y wagen (h.y. defnyddio diesel coch/gordrwm)

- Defnydd anarferol o'r wagen gan y perchennog neu weithredwr
- Addasiad i wagen/trelar y byddwch yn ei weld yn rheolaidd
- Gwyriadau annisgwyl neu funud olaf rheolaidd i'r llwybr mae gyrrwr neu gwmni yn ei ddefnyddio
- Amheuon o ran cwmni neu yrrwr penodol parthed gweithgaredd amheus neu anghyfreithlon
- Gwasanaeth anarferol o rad
- Lleoliadau penodol tramor ble rydych chi wedi gweld gweithgaredd anarferol neu a allai fod yn anghyfreithiol yn digwydd
- Grwpiau cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd i gynnig am lwythi
- Newid platiau rhif a cherbydau confoi posibl

**Byddwch yn 100% ddienw.**

Os bydd rhywun yn dod atoch chi, arhoswch yn 100% ddienw a chysylltu â'r elusen **Crimestoppers**.

Neu, ffoniwch yr heddlu ar **101**.

mewn argyfwng **999** bob tro.

Os oes gennych chi wybodaeth am smyglwyr pobl a'ch bod eisiau bod yn 100% ddienw, cysylltwch â'r elusen **Crimestoppers** ar-lein neu ffoniwch **0800 555 111**.

Bydd timau Ymchwiliadau Troseddol ac Ariannol Gorfodi Mewnfudo yn canfod ac erlyn y rhai sy'n hwyluso mewnfudo anghyfreithlon. Y llynedd, fe wnaethom erlyn 59 o unigolion am droseddau smyglo pobl a chael cyfanswm o 142 o flynyddoedd yn y carchar yn ddedfryd. Dywedwch na i smyglo pobl.

Defnyddiwch y cod QR i ddod o hyd i'r daflen hon yn yr ieithoedd canlynol:

Cymraeg
Français
Española,
Português
Italiana
Türk

Magyar
български
Română
Український
Slovenský
Shqiptare

Српски
Latvietis
Lietuvis
Беларуская
русский

